## Cyflwyniad – Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

1. Gan gyflawni ein cyfrifoldeb fel y cwmni dawns cenedlaethol, yn CDCCymru **ein nod yw i gynhyrchu gwaith gwych** sy'n cymharu â goreuon y byd, gan weithredu fel eiriolwr cryf dros ddawns a'r celfyddydau yng Nghymru. Wrth wneud hynny **dangoswn i'r byd beth yw'r Gymru fodern** – cenedl o ragoriaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth wrth i ni arloesi i wthio ffiniau'r hyn y gellir ei ddychmygu ar lwyfannau ar draws y byd.

Yng Nghymru rydym yn **agor cyfleoedd i bobl** fynegi eu bywydau a'u gwerthoedd trwy ddawns, gyda buddion cymdeithasol ac iechyd i'r meddwl a'r corff gan dyfu **cenedl hapusach ac iachach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**. I gyflawni hyn, rydym yn gweithio ym mhob cornel o Gymru, o drefi bach i'r dinasoedd, gan weithio'n hyblyg gyda phartneriaid yn eu cymunedau i **ddod â dawns i bobl yn eu cymdogaethau eu hunain** ar draws y genedl.

Mewn cyfnod o densiwn ac ynysigrwydd rhyngwladol cynyddol, ein nod yw adlewyrchu'r Gymru fodern. Rydym yn gwmni agored a chynhwysol o bobl o **lawer o genhedloedd a chefndir**, yn gweithio gyda Chymry a chymunedau yng Nghymru ac yn edrych tuag allan, gan gynrychioli gwerthoedd Cymru o fod yn agored a goddefgarwch dramor.

Fel Cwmni sy'n ennill incwm o deithio'n eang yn rhyngwladol, mae'r newid mawr mewn perthynas â phartneriaid yng **ngwledydd yr UE drwy Brexit** wedi bod yn sylweddol. Mae rhai o wledydd yr UE yn llai parod i ddefnyddio cwmni wedi ei leoli yn y DU, mae'n cymryd mwy o amser i gynllunio a gweinyddu ein teithiau, ac mae costau ychwanegol sylweddol.

2. **Cwestiynau pwyllgor:**

a) Effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol
Mae gan gwmnïau dawns grwpiau rhyngwladol o artistiaid yn ganolog iddynt. Mae CDCCymru wedi bod yn falch o fod yn rhyngwladol yn ei ymchwil am dalent, ar ôl cael, dros y pum mlynedd diwethaf, ddawnswyr o Gymru, Ffrainc, Sbaen, yr Eidal, y Swistir, yr Iseldiroedd, Awstralia a Singapore, gyda choreograffwyr o Gymru, Sbaen, Gwlad Groeg, yr Almaen, Iwerddon a De Corea. Yr hyn sy'n peri pryder arbennig, wrth i symudedd artistiaid ddod yn fwy cyfyngedig, yw'r gostyngiad yn nifer y dawnswyr sy'n gwneud cais am rolau sydd â phasbortau'r UE a'r llif allanol o ddawnswyr Ewropeaidd nad ydynt yn aros yn y DU. Bu gostyngiad yn nifer y dawnswyr o'r UE sy'n ymgeisio am rolau. Mae hyn yn herio ein nod o sicrhau ein bod yn gwmni lle mae profiad amrywiol a gwahanol genhedloedd lluosog yn dod at ei gilydd mewn cyfuniad o dalent a diwylliannau dawns gwahanol. Mae hynny'n rhan o'n henw da, a pham rydym yn llwyddo i sicrhau teithiau a chydweithrediadau rhyngwladol.

b) Effaith trefniadau masnachu newydd yn ymwneud â gweithgaredd diwylliannol
Pan fydd cwmnïau celfyddydol Cymru yn gweithio'n rhyngwladol, drwy gydweithio ag eraill, neu wrth fynd â'u gwaith dramor, gallant gynrychioli Cymru a ffurfio ymdeimlad pwerus o genedl fodern, gan gyfleu ein gwerthoedd fel man lle mae diwylliant yn bwysig, a lle rydym yn ceisio ymgysylltu â phobl y tu hwnt i'n ffiniau. Mae costau cynyddol a chymhlethdod gweithio yn Ewrop wedi lleihau'r gallu i gynrychioli Cymru yn y modd hwn, wrth i sefydliadau wneud dewisiadau i osgoi gwledydd lle mae rhwystrau ychwanegol i weithio.

Mae sefydliadau fel CDCCymru wedi colli incwm sylweddol oherwydd Brexit. Mae mwy o gyndynrwydd ar ran hyrwyddwyr o'r UE i archebu cwmnïau yn y DU (yn rhannol oherwydd ofn cymhlethdodau teithio), ac mae ein costau'n uwch oherwydd costau ychwanegol teithio. Mae'r costau hyn yn ymwneud â gofynion trwydded waith mewn rhai gwledydd ar gyfer rhai mathau o weithwyr celfyddydol; y rheolau a'r costau cludo neu 'fasnach arforol' newydd, a'r angen am amser ychwanegol i deithio drwy borthladdoedd. Yn ogystal, mae'r adnoddau amser ychwanegol sydd eu hangen i reoli'r broses o weithio yn yr UE a chyda chyflwynwyr o'r UE yn lleihau proffidioldeb a budd y gwaith hwnnw.

c) Argaeledd canllawiau a chymorth i'r sector yn ymwneud â'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE
Mae gan ein cyrff sy'n arwain y diwydiant yn y celfyddydau perfformio rywfaint o allu, ond cyfyngedig, i ddarparu gwybodaeth am oblygiadau ymarferol gweithio gyda phartneriaid ac artistiaid yn yr UE. Mae'r rhwydwaith Arts Infopoint UK yn gwneud cyfraniad defnyddiol at ledaenu gwybodaeth a chyngor ac mae arweiniad Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn hynny i'w groesawu. Er bod gennym bellach ddealltwriaeth well o'r fframwaith y mae angen i ni weithio oddi mewn iddo, mae yna lawer o artistiaid a chwmnïau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg na fyddant eto wedi profi cymhlethdod yr hyn sydd ei angen. Mae'r angen am arweiniad a chymorth clir yn hollbwysig o hyd i'r gobaith hirdymor o adennill tir coll ac incwm a gollwyd.

d) Yr effaith ar fynediad i raglenni a rhwydweithiau ariannu
Mae'r anallu i wneud cais am gyllid Diwylliant yr UE (adnodd a allai fod wedi'i adael ar agor i'r DU pe bai llwybr gwahanol wedi'i gymryd) wedi lleihau gwaith partneriaeth. Yn y gorffennol mae cwmnïau dawns y DU wedi bod yn rhan o rwydweithiau o gwmnïau, gwyliau ac asiantaethau sydd wedi rhannu gwaith (a thrwy hynny leihau cost ac effaith hinsawdd), wedi archwilio ffyrdd newydd o weithio (hybu arloesedd) a chreu cyfnewid a dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol. Er bod llawer o rwydweithiau sy'n canolbwyntio ar Ewrop yn parhau i fod yn agored ac yn ymroddedig i aelodau'r DU, Aerowaves er enghraifft yn y maes dawns, mae'r cyfleoedd i adeiladu cydweithrediadau diriaethol, blaengar o'r cysylltiadau hynny yn llawer anoddach i'w cyflawni. Byddai cefnogaeth eang i unrhyw ymgais i gael y DU yn ôl i Ewrop Greadigol yn yr un modd ag a gyflawnwyd gyda Horizon Europe, a byddem yn annog ystyried hyn.

e) Unrhyw newidiadau neu welliannau sydd eu hangen ar gyfer gweithio trawsffiniol
Wrth i ni lywio'r newid mewn perthnasoedd rhyngwladol, a mabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n ystyried gofynion yr argyfwng hinsawdd, byddai dysgu ar y cyd a rhannu gwybodaeth a phrofiad yn ddefnyddiol o fewn y sector a thu hwnt, lle mae llawer o ddiwydiannau'n ceisio gweithio'n fwy effeithiol ar ôl Brexit. Byddai buddsoddi mewn gwybodaeth ac arbenigedd yn arbennig o ddefnyddiol, fel bod gennym ganolfannau arbenigedd lleol i alw arnynt.

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Hydref 2023